## Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu Is-gronfa PPC

### Cyflwyniad

1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (yr "Awdurdodau Cyfansoddol").

2 Mae'r polisi hwn yn egluro dull PPC o ail-gydbwyso'r asedau sy'n cael eu dal mewn is-gronfeydd. Mae'r polisi'n amlinellu'r fframwaith y mae'r Bartneriaeth wedi'i sefydlu i sicrhau bod dyraniadau rheolwyr yn yr is-gronfeydd yn cael eu monitro a'u hail-gydbwyso pan fo'n briodol.

3 Mae’r polisi hwn yn gymwys i'r ystod lawn o is-gronfeydd a ddelir dan ymbarél ACS y Bartneriaeth, sy'n cynnwys mandadau ecwiti ac incwm sefydlog. Mae PPC yn cydnabod efallai fod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn dal asedau eraill tu allan i'r Bartneriaeth, ac nid yw'r asedau hynny'n rhan o'r polisi hwn. Bwriad polisi ail-gydbwyso y Bartneriaeth yw sicrhau bod yr holl fuddsoddwyr yn glir ynghylch y polisïau ail-gydbwyso sydd mewn lle.

4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi ger bron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

### Rhesymeg dros ail-gydbwyso

5 Mae polisi ail-gydbwyso yn sicrhau bod dyraniadau rheolwyr yn yr is-gronfeydd yn cael eu monitro'n briodol er mwyn sicrhau eu bod dal yn gyson â'r amcanion pan sefydlwyd yr is-gronfeydd.

6 Yn ogystal, mae cael polisi ail-gydbwyso a phroses fonitro yn helpu i sicrhau bod unrhyw symud mewn dyraniadau rheolwyr yn yr is-gronfeydd yn cael ei fonitro, ei adrodd i fuddsoddwyr, ac y gellir rhoi cyngor yn ei gylch os oes angen.

7 Mae polisi clir yn helpu i roi eglurder ynghylch y camau y gall y Rheolwyr Portffolio ("RhP") eu cymryd i reoli'r risg hwn.

### Ail-gydbwyso

8 Mae PPC yn buddsoddi mewn ystod o gronfeydd, lle mae naill ai Russell Invstments (Russell) neu Waystone Management (UK) Ltd (Waystone) yn Rheolwr Portffolio ("RhP"). Gall y cronfeydd hyn gynnwys dim ond un rheolwr e.e. yr is-gronfa Credyd Sterling lle mae Fidelity yn rheolwr buddsoddi, neu fe allant gynnwys nifer o reolwyr buddsoddi, fel sy'n wir ar gyfer y mwyafrif o is-gronfeydd eraill.

9 Ar gyfer is-gronfeydd gydag un rheolwr yn unig, fel un Credyd Sterling PPC, nid yw ystyriaethau ail-gydbwyso rheolwr yn berthnasol.

10 Ar gyfer y cronfeydd sydd â Russell fel y RhP, mae Russell Investments yn fwriadol yn ceisio rheoli'r holl ddyraniadau i'r rheolwyr buddsoddi gwaelodol ar lefel y Gronfa. Adroddir ar weithgarwch i'r buddsoddwyr yn chwarterol.

11 Ar gyfer yr is-gronfeydd gyda Waystone fel y RhP, a nifer o reolwyr:

11.1 Caiff dyraniad targed ei osod i'r rheolwyr buddsoddi gwaelodol pan sefydlir y gronfa. Caiff y dyraniad targed strategol canolog hwn ei adolygu'n flynyddol, neu pob yr ail flwyddyn.

11.2 Mae Waystone wedi gosod fframwaith lefel goddefiant dwy-haen ar gyfer dyraniadau rheolwyr, sy'n cael ei fonitro'n ddyddiol.

11.3 Pan eir dros y lefelau goddefiant, Waystone sy'n penderfynu p'un a ddylid ail-gydbwyso h.y. nid yw mynd dros y lefel goddefiant yn golygu'n awtomatig y bydd gweithgaredd ail-gydbwyso yn digwydd.

11.4 Caiff adroddiad chwarterol (neu ad-hoc) ei baratoi ar gyfer Pwyllgor Buddsoddi Waystone sy'n cynnwys cyfeiriad at y lefelau goddefiant ynghyd ag unrhyw argymhellion ynghylch ail-gydbwyso o fewn y gronfa.

11.5 Bydd pwyllgor buddsoddi Waystone yn ystyried camau gweithredu addas a bydd yn cynghori buddsoddwyr ar unrhyw weithgaredd ail-gydbwyso.

**Gwybodaeth Bellach**

12 Mae'r mandadau Marchnadoedd Preifat presennol yn cael eu rheoli gan Schroder, Russell a GCM Grosvenor. Mae'r mandadau yn gyfres dreigl o gerbydau caeedig, gyda chronfeydd newydd (vintages) yn cael eu lansio tua un neu ddwy flynedd ar wahân, yn dibynnu ar y galw gan y buddsoddwr. Pan fo angen newidiadau i ddaliadau cronfa sydd wedi eu cynnwys yn y mandadau, mae'r rhain yn cael eu hadrodd i'r buddsoddwyr.

13 Ar gyfer yr is-gronfa Isadeiledd pen agored, gydag amryfal reolwyr, bydd GCM Grosvenor yn hwyluso:

13.1 Dyraniad targed i'r rheolwyr buddsoddi gwaelodol, gaiff ei sefydlu gan y Bartneriaeth ar y cychwyn.

13.2 Adrodd yn chwarterol yn erbyn y dyraniad targed.

13.3 Ail-gydbwyso pan fo angen, gan nodi bod hyn yn cael ei gyfarwyddo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

14 Os hoffech ragor o fanylion am bolisi ail-gydbwyso PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk ac ewch ar wefan PPC.

Fersiwn 2.0

Hydref 2023